Rhif: WG41028

# Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad ar doiledau Changing Places – crynodeb o'r ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth.

2022

This document is also available in English
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

OGL (h) Hawlfraint y Goron 2022

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Doiledau Changing Places (TCP) a Chyfleusterau Newid Cewynnau Babanod ac mae ei strwythur yn seiliedig ar y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Bydd y ddogfen ymateb hon ond yn ymdrin ag ymatebion i'r adran ar TCPau. Darperir dogfen ymateb ar wahân i'r cwestiynau ar gyfleusterau newid cewynnau babanod maes o law. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus wrth lunio'r polisi hwn yn derfynol.

Safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad sydd yn y crynodeb hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

# Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

Cafwyd cyfanswm o 90 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 14 o sectorau a nodwyd ar y ffurflen y mae ei sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad:** | Rhif | Ymatebion Hawdd eu Deall |
|---|---|---|
| Adeiladwr/Datblygwr | 0 | 0 |
| Gweithgynhyrchwr | 1 | 0 |
| Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | 2 | 0 |
| Adran Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol | 8 | 0 |
| Arolygydd Rheoli Adeiladu Cymeradwy | 0 | 0 |
| Ymgynghorydd Mynediad | 1 | 0 |
| Therapydd galwedigaethol | 1 | 0 |
| Sefydliad Pobl Anabl | 3 | 2 |
| Rheolwr Cyfleusterau | 0 | 0 |
| Manwerthwr | 0 | 0 |
| Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | 1 | 0 |
| Rheolwr Eiddo/Landlord | 0 | 0 |
| Sefydliad sy'n Cynrychioli Landlordiaid | 0 | 0 |
| Defnyddiwr/Gofalwr Changing Places | 13 | 2 |
| Rhiant/Gofalwr | 19 | 2 |
| Elusen | 5 | 1 |
| Ymgyrchydd neu Grŵp Lobïo | 4 | 0 |
| Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | 26 | 4 |
| Dim ymateb | 6 | 0 |
| **Cyfanswm** | **90** | **11** |

# Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr

## 1 A ydych yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael?

**Nodwch y rhesymau dros eich ateb**

1.1 Roedd pob un o'r 90 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig uchod ac yn cefnogi'r bwriad i gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael. Nododd yr ymatebwyr y canlynol:

- Mae'r ddarpariaeth bresennol yn annigonol ac wedi'i dylunio'n wael heb ddigon o le i symud cadair olwyn. Maent hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael gyda hylendid gwael.
- Mae darparu toiledau a chyfleusterau newid yn fater iechyd y cyhoedd a mynediad cyfartal a dylid hyrwyddo hyn fel rhan hanfodol o seilwaith cyflogaeth a seilwaith cymdeithasol ac addysgol Cymru.
- Daw darparu TCPau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n amlinellu hawliau cyfartal pob person anabl i gael ei gynnwys yn llawn yn y gymuned a chymryd rhan ynddi.
- Byddai cynyddu nifer y TCPau yn gwella mynediad, cyfleoedd ac ansawdd bywyd pobl anabl ac yn darparu cyfleuster diogel i ddefnyddwyr mewn man gydag urddas, gan sicrhau eu bod nhw, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn fwy abl i ymweld â lleoedd gwahanol a bod yn rhan o'u cymunedau.
- Mae'r angen am TCPau yn debygol o gynyddu o gofio bod y boblogaeth yn heneiddio, mwy na miliwn o bobl 50+ oed yng Nghymru erbyn 2034.
- Dylai cynyddu darpariaeth ddilyn arfer gorau yn BS8300: Design of an accessible and inclusive built environment Part 2: Buildings: 2018.

## 2 A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wella'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M er mwyn cynyddu nifer y TCPau sydd ar gael?

**Os nad ydych, nodwch y rheswm pam.**

2.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig uchod, gyda dim ond dau ymatebydd yn ansicr ac un ymatebydd yn anghytuno.

| Ymateb | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 84 | 1 | 2 | 3 | 90 |

2.2 Rhoddodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig y rhesymau canlynol:

- Addasu canllawiau a rheoliadau adeiladu yw'r unig ffordd o sicrhau newid am fod Dogfen Gymeradwy M yn cael ei derbyn fel y gofyniad sylfaenol;
- Bydd yn sicrhau bod adeiladwyr a chynllunwyr yn ystyried TCPau, yn dilyn egwyddorion allweddol polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru ac yn cysoni Dogfen Gymeradwy M â BS 8300-2 yn ogystal â threfniadau presennol yn Lloegr sy'n rhoi canllawiau arfer da ar ddarparu TCPau o ran dyluniad a hygyrchedd.
- Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig wedi cynnwys cafeat y dylai gwelyau proffilio a gymhwysir yn drydanol (sydd â chynhalydd cefn a all godi/gostwng yr inclein â rheolydd o bell) gael eu gosod fel mater o ddarpariaeth.
- Lle y caiff newidiadau eu gwneud, mae angen cynnwys canllawiau cynhwysfawr yn y Ddogfen Gymeradwy. Mae rhai grwpiau mynediad wedi'i chael hi'n anodd cydymffurfio â'r safonau gofynnol yn Nogfen Gymeradwy M a BS 8300-2 am fod ansawdd a hygyrchedd datblygiadau yn dal i fod yn wael.

2.3 Rhoddodd yr ymatebwyr hynny a oedd anghytuno â'r cynnig neu nad oeddent yn siŵr y rhesymau canlynol:

- Roedd y lefelau capasiti a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori yn rhy uchel a dim ond nifer cyfyngedig o adeiladau a fyddai'n cael eu cwmpasu ganddynt ledled Cymru.
- Holodd un ymatebydd a ddylid cynnwys manylion technegol cydymffurfio â'r ddarpariaeth yn Nogfen Gymeradwy M neu, fel arall, a drwy gyfeirio at safon allanol BS 8300-2. Nododd y byddai'r ail opsiwn yn sicrhau bod addasiadau canlyniadol yn cael eu gwneud mewn mannau eraill yn yr adeilad.

## 3 A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol allu ei gwneud yn ofynnol cael lefelau ychwanegol o ddarpariaeth ar gyfer TCPau drwy'r system gynllunio?

**Nodwch y rhesymau dros eich ateb**

3.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, gyda dim ond pedwar ymatebydd yn anghytuno.

| Ymateb | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 71 | 4 | 8 | 7 | 90 |

3.2 Rhoddodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig y rhesymau canlynol:

- Mae nodi angen am TCP ar y cam cyn gwneud cais neu'r cam gwneud cais yn cynnig cyfle i ddylunio cyfleusterau cynhwysol a hygyrch ac yn galluogi awdurdodau cynllunio i wneud darpariaethau mewn dyluniadau ar gyfer Rheoliadau Adeiladu er mwyn delio â darpariaethau technegol manyleb, dimensiynau a mynediad drwy

gytundebau adran 106.
- Mae'n gwneud synnwyr busnes i adeiladu TCPau ar y dechrau, am ei bod yn ddrutach gwneud gwaith ôl-osod.
- Dylai awdurdodau lleol, drwy eu Strategaethau Toiledau, nodi pwysigrwydd TCPau mewn perthynas â chroesffyrdd seilwaith trafnidiaeth pwysig.

3.3 Fodd bynnag, gwnaed y sylw canlynol:
- Efallai y bydd angen hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o gyflwyno TCPau er mwyn sicrhau bod gan gynllunwyr y set sgiliau gywir i ddylunio TCPau a'u gosod yn y lleoliadau gorau a dylai cynllunwyr weithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol.

3.4 Nododd y lleiafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig neu nad oeddent yn siŵr y canlynol:
- Gallai wneud gwaith datblygu yn gymhleth i gleientiaid, datblygwyr a chyrff rheoli adeiladu gan y gallai ddyblygu deddfwriaeth gan beri dryswch o fewn y diwydiant.
- Byddai hefyd angen ystyried sut y byddai'r ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei hyswirio neu eu cyfleu i'r Corff Rheoli Adeiladu.
- Dywedodd un ymatebydd y dylai pob cais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac a yw'n rhesymol mynnu bod cyfleusterau o'r fath yn cael eu darparu.

## 4 Os ydych yn cefnogi darpariaeth yn Nogfen Gymeradwy M fel y nodwyd yng Nghwestiwn 2, a ydych yn cytuno â'r mathau o adeiladau a restrir ym Mlwch A ar gyfer TCP?

**Os nad ydych, a ddylai'r rhestr fod yn ehangach neu'n gulach, yn eich barn chi? Os ydych o'r farn y dylai fod yn ehangach, pa fathau eraill o adeiladau y dylai gofyniad fod yn gymwys iddynt neu os ydych o'r farn y dylai fod yn gulach, pa fath o adeiladau y byddech yn eu hepgor? Nodwch y rhesymau dros eich ateb.**

4.1 Roedd y mwyafrif (53) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 7% yn anghytuno ac nid oedd 19 yn siŵr.

| Ymateb | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 53 | 7 | 19 | 11 | 90 |

4.2 Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gwnaethant awgrymu, ynghyd â'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig neu nad oeddynt yn siŵr, y dylai'r rhestr o adeiladau gael ei hehangu.

4.3 Gwnaethant y sylwadau canlynol:

- Rhaid i unrhyw adeilad a gaiff ei adeiladu at ddefnydd y cyhoedd, gan gynnwys gwestai, sinemâu, colegau a phrifysgolion, ystyried TCP waeth

beth fo'i faint er mwyn sicrhau mynediad cyfartal.
- Dylid cynnwys adeiladau sy'n hanfodol i seilwaith trafnidiaeth hefyd.
- Dylai pob ysgol gynnwys TCP er mwyn sicrhau mynediad cyfartal.
- Dylid darparu mwy o TCPau mewn ardaloedd twristaidd.

4.4 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r trothwyon canlynol gael eu hystyried:
- Dylai fod TCP mewn unrhyw adeilad sydd ag arwynebedd o fwy na 2,500 m2 neu a all gynnwys o leiaf 500 o unigolion.
- dylai'r sbardun o 5,000m² ystyried ardaloedd allanol adeilad arfaethedig (e.e. y parth cyhoeddus a datblygiadau manwerthu) nid dim ond yr adeilad.

4.5 Cododd rhai ymatebwyr bwyntiau a oedd yn ymwneud ag egluro a dehongli diffiniadau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad. Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â'r canlynol:
- Beth yw ystyr 'categorïau', ac a yw hyn yn cynnwys gofynion o ran maint/capasiti a mathau o adeilad, neu ddim ond un o'r rhain.
- Beth yw ystyr 'Mynediad Cymunedol'?
- Mae angen diffinio 'capasiti' yn well ar gyfer achosion aml-ddefnydd. Er enghraifft, a ddylai canolfan gynadledda a gynlluniwyd yn benodol i gynnal digwyddiad â 600 o bobl ond a ddefnyddir 'fel arfer' ar gyfer ystafelloedd cyfarfod unigol sydd â lle i lai na 350 o bobl, gynnwys TCP?

## 5 O ran ysgolion, a ydych o'r farn y dylai unrhyw fath arall o ysgol ddarparu TCP?

## Os felly, pa fath o ysgol rydych yn ei hawgrymu a pham?

5.1 Roedd 54% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 8% yn anghytuno ac nid oedd 20% yn siŵr.

| Ymateb | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 54 | 8 | 20 | 8 | 90 |

5.2 Nododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r cynnig y byddai hyn yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar gynwysoldeb mewn addysg ac yn ennyn cefnogaeth i'r gymuned a digwyddiadau cymunedol, i bobl anabl, p'un a ydynt yn fyfyrwyr, yn athrwon neu'n rhieni.

5.3 Rhoddodd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig y rhesymau canlynol:
- Gallai fod yn anodd i bob ysgol gynnig darpariaeth TCP ac efallai y dylid mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar anghenion.
- Byddai gan ysgolion arbennig y ddarpariaeth hon i'w disgyblion eisoes.
- Mae'r trothwy a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn golygu na fyddai llawer o ysgolion llai o faint yn gorfod darparu TCP ond byddai dal angen cyfleusterau o'r fath.

5.4 Gwnaeth un ymatebydd nifer o sylwadau gan amau rhai o'r diffiniadau.

Gofynnodd yr ymatebydd am eglurhad ynglŷn â'r term ‘ysgol’. Awgrymodd y dylid cynnwys pob sefydliad addysgol yn y cynnig, ond y dylid hepgor sefydliadau cyn ysgol, megis meithrinfeydd, o'r rhestr, ar yr amod bod cymorth cyffredinol yn cael ei roi i'r mathau hyn o sefydliadau addysgol er mwyn sicrhau y darperir cyfleusterau priodol. Gallai fod yn ddefnyddiol nodi'r cyfleusterau y dylid eu darparu yn y canllawiau er eglurder.

5.5 Dylai sefydliadau addysgol newydd ac addasiadau/newidiadau i sefydliadau sy'n bodoli eisoes, gael eu hystyried fesul achos ar gyfer darparu TCP waeth beth fo'r gofynion o ran arwynebedd neu gapasiti a waeth pa ddefnydd sy'n cael ei wneud ohono fel cyfleuster cymunedol fel y'u rhestrir ym Mlwch A.

5.6 Awgrymodd un ymatebydd y dylem ddefnyddio’r un trothwyon a mathau o adeilad ag a ddefnyddir yn Lloegr mewn perthynas â TCPau.

5.7 Nododd rhai ymatebwyr, gan fod ysgolion ar gau gyda'r nos, ar y penwythnos ac yn ystod yr haf, y dylid ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ysgol y mae TCP wedi'i osod ynddi sicrhau bod eu hadeiladau yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd ar yr adegau hyn. Hefyd byddai angen sicrhau bod y cyfleusterau yn gweithio'n iawn ac yn bodloni gofynion diogelwch.

5.8 Ymgynghorwyd â cholegau addysg ac Awdurdodau Lleol er mwyn cael sylwadau ychwanegol ynghylch darparu TCPau mewn ysgolion lleol. Roedd cefnogaeth o blaid darparu mwy o TCPau mewn ysgolion ac, er ei fod yn fan cychwyn addas, cydnabuwyd na fyddai'r trothwy yn cynnwys ysgolion cynradd. Materion eraill a godwyd oedd lleoliad TCP yn yr ysgol, argaeledd cyllid, yn enwedig ar gyfer cwrdd â chostau ynni, gofal, gwaith glanhau a gwaith cynnal a chadw ac y byddai angen cynnal asesiad risg trylwyr.

## 6 Os ydych yn cefnogi darpariaeth, a ydych yn cytuno â'r meini prawf o ran maint a chapasiti ym Mlwch A mewn perthynas â phob math o adeilad ar gyfer TCP?

**Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyferbyn â phob math o adeilad a'i sbardun.**

**[Adeiladwaith Newydd sydd ag arwynebedd o fwy na 5,000 m2, neu sydd â lle i fwy na 1,000 o bobl]**

| Adeiladwaith Newydd sydd ag arwynebedd o fwy na 5,000 m2, neu sydd â lle i fwy na 1,000 o bobl: | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Adeilad manwerthu (siop) | 61 | 8 | 9 | 12 | 90 |
| Adeilad ymgynnull/hamdden | 64 | 8 | 5 | 13 | 90 |
| Preswyl (sefydliadol) | 62 | 6 | 9 | 13 | 90 |
| Preswyl (arall) | 51 | 9 | 17 | 13 | 90 |
| Adeilad sy'n cyfuno unrhyw rai o'r uchod | 60 | 7 | 9 | 14 | 90 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwestai (os ydynt yn darparu cyfleusterau digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon neu hamdden) | 63 | 8 | 5 | 14 | 90 |
| Ysgolion (os ydynt yn darparu mynediad i'r cyhoedd i'w cyfleusterau) | 59 | 10 | 7 | 14 | 90 |

6.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r sbardunau sy'n gysylltiedig â phob math o adeilad. Fodd bynnag, gwnaethant y sylwadau canlynol:

- Mae angen eglurhad ynglŷn â'r term ‘preswyl’ gan na fyddai'n synhwyrol darparu cyfleusterau o'r fath ar ystadau tai hyd yn oed os oes ganddynt arwynebedd o fwy na 5,000m2.
- Dylai Awdurdodau Lleol nodi faint o TCPau sydd eu hangen a chymhwyso'r ffigur hwnnw at benderfyniadau cynllunio.
- Bydd nodiadau canllaw yn bwysig.

## Os nad ydych yn cytuno, nodwch pa sbardun sy'n briodol ar gyfer pob math o adeilad, yn eich barn chi.

**Trothwyon a argymhellir ar gyfer gwaith adeiladu newydd**

6.2 Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r trothwyon o'r farn bod y sbardunau yn rhy uchel a gwnaethant awgrymu'r sbardunau is canlynol ar gyfer capasiti mewn perthynas â phob math o adeilad:

- 1,000m2 – 2500m2
- 250 – 500 o bobl
- Dim Terfynau a phob ysgol
- Y sbardunau a geir yn y newidiadau i Ddogfen Gymeradwy M Lloegr 2020

6.3 O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y rhesymau a roddwyd oedd:

- Roedd y trothwyon yn rhy uchel a dylid eu gostwng.
- Dylid defnyddio meini prawf mwy hyblyg sy'n ystyried trosiant ymwelwyr, anghenion y gymuned, y defnydd o adeiladau ac am faint o amser y bydd pobl yn defnyddio'r cyfleusterau.
- Dylai awdurdodau lleol benderfynu ar gyfleusterau TCP a'u cymhwyso at benderfyniadau cynllunio.
- Dylai darpariaeth fod yn seiliedig ar asesiadau o anghenion y boblogaeth ac archwiliadau awdurdodau lleol.
- Dylai canllawiau fod yn gymwys i bob adeilad cyhoeddus newydd a adeiledir a phob adeilad cyhoeddus sy'n ceisio estyniad.
- Dylai TCPau fod yn gymwys i bob gorsaf reilffordd a gorsaf fysiau fawr.
- Dylid darparu TCP ar gyfer gwestai sy'n darparu cyfleusterau digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon a hamdden cyhoeddus.
- Mae ysgolion yn gyfleuster cymunedol a dylent ddiwallu anghenion eu cymuned ac ni ddylai fod ganddynt unrhyw derfynau ar drothwyon.

Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr y dylai ysgolion asesu anghenion disgyblion a'r gymuned ehangach cyn ystyried TCP.

- Yn achos rhai adeiladau preswyl (h.y. llety byw â chymorth) efallai na fydd angen TCP os bydd gan y preswylwyr gyfleusterau priodol yn eu hystafelloedd preifat.
- Mae llawer o gartrefi gofal yn fach ac ni fyddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer TCP ond maent yn dal i ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.  Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ohonynt yn rhy fach i gynnwys TCP.
- Bydd nodiadau canllaw yn bwysig.
- Dylid defnyddio'r un meini prawf ag a ddefnyddir yn Lloegr (Dogfen Gymeradwy M Cyfrol 2 (ddiwygiedig) Lloegr 2020)

6.4 Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am ddarparu TCP, er enghraifft mewn adeilad manwerthu, gan nodi y gallai fod angen cymorth ar landlord, datblygwr neu fusnesau i gwrdd â'r gost.

## (6. parhad) Addasu (newid defnydd) neu Ymestyn (pan nad oes TCP yn yr adeilad eisoes) lle mae'r arwynebedd llawr gros yn cynyddu 25% neu fwy:

| Addasu neu Ymestyn lle mae'r arwynebedd llawr gros yn cynyddu 25% neu fwy: | Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.8 Adeilad manwerthu (siop) | 61 | 7 | 9 | 13 | 90 |
| 6.9 Adeilad ymgynnull/hamdden | 63 | 6 | 7 | 14 | 90 |
| 6.10 Preswyl (sefydliadol) | 57 | 9 | 10 | 14 | 90 |
| 6.11 Preswyl (arall) | 52 | 10 | 14 | 14 | 90 |
| 6.12 Adeilad sy'n cyfuno unrhyw rai o'r uchod | 62 | 6 | 8 | 14 | 90 |
| 6.13 Gwestai (os ydynt yn darparu cyfleusterau digwyddiadau, chwaraeon neu hamdden) | 62 | 8 | 6 | 14 | 90 |
| 6.14 Ysgolion (os ydynt yn darparu mynediad i'r cyhoedd i'w cyfleusterau) | 60 | 8 | 8 | 14 | 90 |

6.5 Fel y dengys y tabl uchod, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r sbardunau sy'n gysylltiedig â phob math o adeilad.  Gwnaeth ymatebwyr rai sylwadau:

- Dylai Awdurdodau Lleol nodi faint o TCPau sydd eu hangen a chymhwyso'r ffigur hwnnw at benderfyniadau cynllunio.
- Dylai TCPau fod yn gymwys i bob gorsaf reilffordd a gorsaf fysiau fawr a siop neu ganolfan siopa.

## Os nad ydych yn cytuno, nodwch pa sbardun sy'n briodol ar gyfer pob math o adeilad, yn eich barn chi.

**Trothwyon a argymhellir ar gyfer Addasu (newid defnydd) neu Ymestyn**

6.6 Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r trothwyon o'r farn bod y sbardunau yn rhy uchel a gwnaethant awgrymu’r sbardunau is canlynol ar gyfer capasiti mewn perthynas â phob math o adeilad:

- 1,000m2 - >1,000m2
- 200 – 250 o bobl
- Er mwyn asesu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth a'r galw
- Unrhyw waith adnewyddu sylweddol os bydd cyfleusterau toiled yn cael eu newid

6.7 Yn achos y lleiafrif o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r sbardunau, y rhesymau a roddwyd oedd:

- Roedd y sbardunau a'r trothwyon yn rhy uchel ac, ar gyfer rhai adeiladau, dylai'r sbardunau fod yn seiliedig ar gynnydd mewn arwynebedd a chapasiti absoliwt.
- Dylid mabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg sy'n ystyried nifer yr ymwelwyr a'r pellter teithio i TCP arall a'r manteision cymdeithasol/cymunedol a allai ddeillio o ddarparu TCP.
- Dylai unrhyw waith addasu neu ymestyn sylweddol gynnwys TCP.
- Dylai fod gan westai TCP, heb ystyried yr amod a nodwyd (e.e. eu bod yn darparu cyfleusterau digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon neu hamdden).
- Mae ysgolion yn gyfleuster cymunedol; dylent adlewyrchu anghenion eu cymunedau a darparu TCP heb ystyried yr amod i ddarparu cyfleusterau cymunedol.
- Yn achos ysbytai, nododd un ymatebydd y dylid darparu TCP heb ystyried yr amod a nodwyd (e.e. ardaloedd aros, ffreuturau ac ati)

## 7 A ydych yn cytuno y dylai TCP gael ei gynllunio yn unol â'r ddogfen gymeradwy ddrafft a chynnwys y cyfarpar a restrir ynddi? Nodwch y rhesymau dros eich ateb.

7.1 Fel y dangosir yn y tabl isod, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynllun arfaethedig a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 65 | 7 | 10 | 9 | 91 |

7.2 Gwnaeth ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y sylwadau canlynol:

- Dylai'r ystafell fod yn ddigon mawr i unigolion mewn cadair olwyn a gofalwyr allu mynd i mewn iddi.
- Mae byrddau plygu yn cyfyngu ar allu unigolion i gyrraedd y ddwy ochr i'r fainc ac efallai y bydd angen i rai pobl anabl gael cymorth corfforol gan ddau weithiwr gofal, un ar y naill ochr a'r llall i'r gwely newid. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio gwely ag olwynion y gellir addasu ei uchder a'i symud i ffwrdd o'r wal. Mae BS 8300 yn rhestru gwely symudol fel yr opsiwn cyntaf ym Mhara 18.6 Nodyn Sylwadaeth 4 ac

mae Ffig 48 yn dangos mainc symudol.
- Gall maint yr ystafell a'r cyfarpar sydd ei angen fod yn rhwystr mewn rhai datblygiadau ffiniol.
- Dylid osgoi cynllun lliwiau sydd ond yn cynnwys gwyn.
- Ni ddylid gosod synwyryddion symudiadau mewn TCPau am eu bod yn dueddol o fethu.
- Dylai Dogfen Gymeradwy M osgoi defnyddio lletrawsau heb fylchau am fod hyn yn gwneud y testun yn annarllenadwy i feddalwedd darllen sgrin.
- System wresogi ddigonol mewn TCPau.

7.3 Nodir isod gyfarpar arall y dylid ei gynnwys.
- gwelyau proffilio a gymhwysir yn drydanol (sydd â chynhalydd cefn a all godi/gostwng yr inclein â rheolydd o bell).
- sgriniau er mwyn sicrhau preifatrwydd, silffoedd a chyfarpar glanhau cyffredinol arall megis diheintydd dwylo, leininau tafladwy ar gyfer y gwelyau, cadachau gwrthfacterol i lanhau cyfarpar a biniau gwastraff ar gyfer gwastraff cyffredinol a chlinigol.

## 8 Pan ddarperir TCP mewn adeilad (a restrir ym Mlwch A) sy'n cael ei ymestyn neu y mae'r defnydd a wneir ohono yn cael ei newid, pa drefniadau ymarferol y gellir eu darparu ar gyfer TCP llai o faint o ran maint yr ystafell a chyfarpar?

## Nodwch y rhesymau dros eich ateb:

8.1 Gwnaeth ymatebwyr y sylwadau canlynol:

<u>Maint yr ystafell:</u>
- Mae angen i TCP ddilyn y Safon Brydeinig a bod mor agos ag sy'n ymarferol at fodloni'r gofyniad gan na fydd yn ymarferol nac yn addas at y diben.
- Rhaid iddo fod yn ddigon o faint i'r person anabl â chadair olwyn neu sgwter person anabl, a'i ofalwr, allu symud o gwmpas.
- Hyd y gellir, dylid sicrhau cysondeb o ran TCPau a ddarperir ar gyfer pob math o adeilad.
- Dylid mabwysiadu dull gweithredu fesul achos sy'n ystyried y defnydd a wneir o'r adeilad a'r pellter teithio i TCP arall

8.2 Rhestrodd ymatebwyr y cyfarpar canlynol ar gyfer TCP pan fydd adeilad yn cael ei addasu neu pan fydd y defnydd a wneir ohono yn cael ei newid.

<u>Cyfarpar:</u>
- Gwely newid proffilio wedi'i badio â chynhalydd cefn y gallwch ei gymhwyso gan ddefnyddio rheolydd o bell.
- Cyfarpar cryno sy'n plygu i mewn i wal
- Teclyn codi, basn maint oedolyn, bwrdd newid, silffoedd, canllawiau diogelwch, llawr gwrthlithro

- Sgriniau er mwyn sicrhau preifatrwydd, silffoedd a chyfarpar glanhau cyffredinol arall megis diheintydd dwylo, leininau tafladwy ar gyfer y gwelyau, cadachau gwrthfacterol i lanhau cyfarpar a biniau gwastraff ar gyfer gwastraff cyffredinol a chlinigol.

8.3 Nododd ymatebwyr hefyd fod angen ystyried mwy na dim ond cymhlethdodau lleoli cyfleuster TCP maint llawn o fewn ôl troed yr adeilad presennol sydd wedi'i newid. Rhaid i'r TCP fod mewn lle hygyrch.

8.4 Byddai angen ystyried ffactorau eraill gan y byddai gosod cyfleuster TCP mewn adeiladau presennol fel y'u hymestynnwyd yn sbarduno addasiadau rhesymol i ledau troi cylchrediad presennol a gofyn am newidiadau ychwanegol megis rampiau mynediad, a fyddai'n costio llawer mwy na chost gosod TCP, sef £58k ar gyfartaledd.

## 9 Defnyddiwch y cwestiwn hwn i nodi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion i wneud darpariaeth ar gyfer TCP a maint y TCPau a'r cyfarpar ynddynt. Sylwadau ychwanegol:

9.1 Pwysleisiodd ymatebwyr ba mor bwysig ydyw bod TCPau yn ddigon o faint i alluogi pobl mewn cadair olwyn i fynd i mewn iddynt a symud o gwmpas yn gyfforddus. Dylid darparu gwelyau proffilio a gymhwysir yn drydanol (sydd â chynhalydd cefn y gellir ei gymhwyso â rheolydd o bell a all godi/gostwng yr inclein â rheolydd o bell).

9.2 Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd darpariaethau eraill megis pethau ymolchi digonol, weipiau diheintio, socedi a llinyn larwm. Nodwyd system awyru ychwanegol a goleuadau da hefyd fel rhan o'r ystyriaethau.

9.3 Nid yw isafswm uchder y nenfwd, sef 2400mm, y rhoi arweiniad addas mewn gwirionedd. Gellir gosod teclyn codi mewn llawer o gyfluniadau ac weithiau collir uchder codi gwerthfawr.

9.4 Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd ynghylch cynnal a chadw TCPau gan nodi y dylid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am hyn. “Rydym yn awgrymu y dylai newidiadau i Ddogfen Gymeradwy M hefyd gyfeirio at ofynion penodol o ran cynnal a chadw/rheoli TCPau, yn enwedig mewn perthynas â theclynnau codi”. Dylid hefyd gynnwys gofynion o ran llwythau ar gyfer teclynnau codi sydd wedi'u gosod ar y nenfwd.

## 10 Ymateb Llywodraeth Cymru

10.1 Gofynnodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau i ymatebwyr am ddarparu TCPau.

**Cwestiynau 1 a 2**

10.2 Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno â bwriad Llywodraeth Cymru i

gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael a hwyluso'r gwaith o'u darparu drwy Ddogfen Gymeradwy M ac yn cefnogi'r bwriad hwnnw. Nododd y nifer bach o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig fod y trothwyon a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn rhy uchel ac mai dim ond nifer cyfyngedig o adeiladau a fyddai'n cael eu cwmpasu ganddynt ledled Cymru. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio hwyluso'r gwaith o ddarparu TCPau drwy Ddogfen Gymeradwy M. Roedd cwestiynau eraill yn gofyn am drothwyon ac a oedd y trothwyon a oedd yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru yn briodol i ysgogi darparu TCP.

**Cwestiwn 3**

10.3 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn a bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio egluro i awdurdodau cynllunio lleol y gallant geisio lefelau ychwanegol o TCPau os oes tystiolaeth i gefnogi hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi hyn yn glir drwy gyfeirio at y mater mewn newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn y dyfodol.

**Cwestiynau: 4, 5 a 6.**

10.4 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr o fathau o adeiladau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Gofynnodd Cwestiwn 6 yn benodol i ymatebwyr nodi trothwyon a sbardunau amgen os oeddent yn anghytuno â'r trothwyon a oedd yn cael eu cynnig. O ystyried y sylwadau a'r trothwyon newydd arfaethedig, ceisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn fewnol ac yn allanol er mwyn cael mwy o dystiolaeth am fathau cyffredin o adeiladau a throthwyon mwy priodol ym mhob categori.

10.5 Nodir y trothwyon arfaethedig newydd yn y paragraff isod, ynghyd â'r rhesymeg dros y newid:

**Trothwyon**

10.6 Darperir o leiaf un TCP yn y math canlynol o adeilad sy'n adeilad newydd neu'n adeilad y mae'r defnydd a wneir ohono yn cael ei newid mewn ffordd berthnasol:

i safle manwerthu sydd ag arwynebedd llawr gros o 5,000m2 neu fwy;

ii adeiladau ymgynnull, hamdden ac adloniant sydd â lle i 1,000 o bobl neu fwy; neu gasgliad o adeiladau llai o faint sy'n gysylltiedig â safle a ddefnyddir at ddibenion ymgynnull, hamdden neu adloniant, megis sŵau, parciau thema a lleoliadau ar gyfer chwaraeon ac arddangosfeydd, sydd â lle i 2,000 o bobl neu fwy;

Ystyriwyd maint a chyfansoddiad ardaloedd adloniant a pharciau thema. Roeddent yn aml yn cyrraedd y trothwy o 5000m2 ond roeddent yn cynnwys nifer o adeiladau llai o faint wedi'u gwasgaru ar draws y parc. Felly, ystyriwyd y byddai nifer yr ymwelwyr yn fesur gwell ac, felly, cynyddwyd y capasiti i 2000.

iii sinemâu/theatrau/neuaddau cyngerdd sydd â lle i 350 o bobl neu fwy;

iv Ar gyfer ysgolion newydd sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 4,000m2 a fydd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol;

v Ysbytai; Ar gyfer adeiladau newydd: Rhaid i TCP gael ei adeiladu ***ym mhob*** Ysbyty a chyfleuster Gofal Iechyd Sylfaenol newydd a adeiledir ond dim ond mewn ardaloedd sy'n gwbl hygyrch i'r cyhoedd.

vi adeiladau chwaraeon a hamdden sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 4,000m2;

Edrychodd swyddogion ar arferion gorau ar gyfer cynlluniau a meintiau adeiladau ar gyfer adeiladau chwaraeon a hamdden ledled y DU a gwnaethant ostwng y trothwyon er mwyn cynnwys llawer o'r adeiladau llai o faint.

vii gwestai, sy'n aml ar agor i'r cyhoedd at ddibenion ymgynnull, hamdden neu adloniant sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 4,000m2.

**Ysgolion**

10.7 Roedd cefnogaeth o blaid darparu mwy o TCPau mewn ysgolion a sicrhau bod y ddarpariaeth mewn ysgolion yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol ac mewn cydleoli gwasanaethau a gwella gweithgarwch ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

10.8 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ymhellach â chydweithwyr ym maes addysg a ymgynghorodd, yn eu tro, â'u rhanddeiliaid allweddol ac Awdurdodau Lleol er mwyn cael sylwadau ychwanegol ar ddarparu TCPau mewn ysgolion lleol, meithrin gwell dealltwriaeth o'r mathau o ysgolion a meithrin dealltwriaeth o drothwy mwy priodol.

10.9 Er bod y trothwyon a ddarparwyd yn fan cychwyn addas, roeddent yn golygu bod ysgolion cynradd wedi'u hepgor. Ar ôl ymgynghori ymhellach ar drothwyon mwy priodol, penderfynwyd gostwng y trothwy er mwyn cynnwys ysgolion llai o faint, ar yr amod mai dim ond ysgolion a oedd yn cynnig cyfleusterau cymunedol a fyddai'n cael eu cwmpasu.

10.10 Cododd ymatebwyr faterion eraill megis lleoliad TCP yn yr ysgol, argaeledd cyllid, costau ynni, gofal, gwaith glanhau a gwaith cynnal a chadw ac y byddai angen cynnal asesiad risg trylwyr fesul achos.

10.11 Bydd cyfle i ystyried darparu TCP ymhellach yn ystod yr adolygiad o safonau cynllunio ysgolion.

**Estyniadau**

10.12 Ar ôl ystyried y mater hwn, ni fyddwn yn datblygu polisïau mewn cysylltiad ag estyniadau ar yr adeg hon, a hynny oherwydd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â phennu trothwyon i'r gwahanol fathau o adeiladau a materion sy'n ymwneud â hygyrchedd.

**Cwestiwn 7:**

10.13 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (65%) yn cytuno â'r cynnig. Rhestrodd y rhai a oedd yn anghytuno gyfarpar ychwanegol y dylid ei gynnwys yn y cynllun. Bydd Llywodraeth Cymru yn argymell y cyfarpar a restrir yn Nogfen Gymeradwy M am mai hon yw'r rhestr bresennol yn BS 8300-2, tra nad yw cyfarpar ychwanegol a restrwyd gan ymatebwyr wedi'u cwmpasu gan ofynion rheoliadau adeiladu.

**Cwestiwn 8:**

10.14 Amrywiol a chymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda rhai ymatebwyr yn nodi bod angen i TCP ddilyn y Safon Brydeinig a bod mor agos â phosibl i'r gofyniad gan na fydd yn addas at y diben. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn llunio barn ar hyn o bryd a byddwn yn ceisio rhagor o dystiolaeth am fater estyniadau a newid defnydd ar gyfer adeiladau cyn gynted â phosibl.